

Mae Arriva wedi cyhoeddi adolygiadau i'r rhwydwaith bysiau ar draws Gogledd Cymru. Bydd hyn yn effeithio ar rai gwasanaethau bws masnachol ar draws Ynys Môn.

Bydd y newidiadau a gyhoeddwyd gan Arriva yn effeithio gwasanaethau yn y pentrefi canlynol:

- Caergeiliog
- Bodedern
- Trefor
- Gwalchmai Uchaf
- Llynfaes
- Bodffordd
- Llanddaniel

Bydd y newidiadau yn dod i rym ddydd Sul 24 Medi. Mae mwy o wybodaeth ar gael yma:

<https://www.arrivabus.co.uk/latest-news/changes-to-services-in-north-wales-sept-23>

Mae Arriva wedi nodi eu bod wedi gwneud y newidiadau anodd hyn gan nad yw lefelau teithwyr wedi dychwelyd i'r lefelau yr oeddent cyn Covid-19 a bod costau wedi cynyddu'n sylweddol.

Gan fod y lleoliadau yn cael eu gwasanaethu ar sail fasnachol gan y gweithredwr, cyfyngedig iawn yw dylanwad y Cyngor Sir.

Gwerthfawrogwn y bydd y newyddion hwn yn effeithio ar drigolion sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn. Felly, er mwyn sicrhau bod y pentrefi uchod yn parhau i dderbyn gwasanaeth bws, mae'r Awdurdod yn edrych ar opsiynau i gyfeirio gwasanaethau eraill drwy'r pentrefi hyn. Bydd mwy o wybodaeth yn cael ei chyhoeddi cyn gynted â phosibl.

Mae'n annhebygol y byddwn yn gallu cynnig yr un lefel o amllder bysiau a ddarparwyd yn flaenorol gan Arriva.

Arriva have announced revisions to the Arriva bus network across North Wales. This will affect some commercial bus services across Anglesey.

The changes announced by Arriva will affect services in the following villages:

- Caergeiliog
- Bodedern
- Trefor
- Upper Gwalchmai
- Llynfaes
- Bodffordd
- Llanddaniel

The changes will become effective from Sunday 24th September. More information is available here: <https://www.arrivabus.co.uk/latest-news/changes-to-services-in-north-wales-sept-23>

Arriva have communicated that they have made these difficult changes because passenger levels have not returned to pre Covid-19 levels whilst operating costs have substantially increased.

